# Mae pawb yn cael eu galw ...

*“Galwodd Duw chwi wrth eich enw a’ch gwneud yn eiddo iddo’i hun.”*

Mae pob Cristion yn cael ei alw gan Dduw. Fe’n gelwir i fod yn ddisgyblion i Iesu ac i barhau ei genhadaeth i’r byd. Gelwir rhai i weinidogaethau arbennig yn yr eglwys, i fod yn ddiaconiaid, offeiriaid, esgobion, mynaich, lleianod, efengylwyr, darllenwyr, gweinidogion ewcharistaidd lleyg, neu i nifer o wahanol weinidogaethau eraill.

Hwyrach fod Duw yn eich galw i un o’r gweinidogaethau hyn?

Y mae gan bob Cristion ran i’w chwarae yng ngweinidogaeth yr eglwys.

Yr ydym yn rhannu bywyd Iesu Grist drwy’r Ysbryd Glân drwy:

Gyhoeddi Newyddion Da y Deyrnas
Meithrin a hyfforddi credinwyr newydd
Ymateb i angen dynolryw mewn gwasanaeth cariadlon
Ceisio trawsffurfio strwythurau anghyfiawn mewn cymdeithas
Diogelu’r cread a chynnal ac adnewyddu’r ddaear

# Mae llawer ffordd o weinidgaethu ...

Y mae gweinidogaethau a gyflenwir gan ddisgyblion yn eu bywyd bob dydd mewn ymateb naturiol i gariad Duw - *beth* a wnawn a’n *dull* o’i wneud: *fel rhiant, fel gofalwr ... yn y gymdogaeth – yn gweithio mewn siop gymunedol neu ganolfan ddyddiol ... Cynghori Dinasyddion ... gwleidyddiaeth leol neu genedlaethol ... rhoi amser i wrando ... gwirfoddoli ... gweld ein gwaith beunyddiol fel disgyblyddiaeth...*

Y mae rhai gweinidogaethau a gyflenwir ar ran yr eglwys, ac y gofynnir inni eu gwneud am fod gennym ddoniau neu sgiliau arbennig: *ymweld â’r cleifion gartref neu mewn ysbyty; bod yn llywodraethwr ysgol; ymuno â chynllun cymdogaeth dda; paratoi at fedydd a chynghori wedi hynny; ymuno â chanolfan gynghori ar ddyled; bod yn aelod o’r Cyngor Plwyfol Eglwysig; bod yn warden eglwys neu’n drysorydd neu’n weinyddwr neu’n arweinydd cylch gweddi neu gylch astudio, yn gydlynydd cyfraniadau, neu’n ddarllenydd; ymwneud â chyfathrebu neu gyhoeddusrwydd neu groesawu; arwain ymbiliau; bod yn gynorthwywr ewcharistaidd lleyg; ymwneud â gwaith ieuenctid ...*

Fel rheol bydd y gweinidogaethau hyn am gyfnod penodol, a darperir hyfforddiant.

The Church in Wales
Yr Eglwys yng Nghymru

# Discipleship and lay ministries

# Disgyblyddiaeth a gweinidogaethau lleyg

# All are called...

*"God has called you by name
and made you his own"*

All Christians are called by God. He calls us to be disciples of Jesus and to continue his mission in the world. Some will also be called to particular ministries in the church as deacons, priests, bishops, monks, nuns, evangelists, readers, lay eucharistic ministers and a variety of other ministries.

Maybe God is calling you to one of these ministries?

All Christians have a part to play in the ministry of the church.

We share in the life of Jesus Christ, through the Holy Spirit by:

Proclaiming the Good News of the Kingdom
Nurturing and teaching new believers
Responding to human need in loving service
Seeking to transform unjust structures in society
Safeguarding creation and sustaining and renewing the earth.

# There are many ways of ministering...

There are ministries undertaken by disciples in daily life as a natural, normal response to God's love—*what* we do and the *way* we do it:
*as a parent, as a carer…*
*in the neighbourhood - working in a community shop or day centre…Citizens' Advice…*
*local and national politics…*
*by giving time to listen…to volunteer…*
*through seeing daily work as discipleship…*

There are some ministries undertaken on behalf of the church, where we are asked because of particular gifts or skills:
*visiting the sick at home and in hospital; school governor; good neighbour scheme; baptism preparation and follow up; debt advice centre; PCC member; church warden; treasurer; administrator; prayer group leader; study group leader; giving coordinator; Reader; communication and publicity; hospitality; leading intercessions; lay eucharistic assistant; youth services and youth work….*

Usually these ministries will be for an agreed length of time and training will be given.

# What next? Beth nesaf?

This leaflet is one of a series including: discipleship and lay ministries; deacons; priests; Readers. Mae'r daflen hon yn un o gyfres sy'n cynnwys: disgyblyddiaeth a gweinidogaethau lleyg; diaconiaid; offeiriaid; darllenwyr.

If you feel that God may be calling you, listen and talk to God, to those who know you well and to your parish priest or chaplain.
If you believe that God may be calling someone you know, pray for them and talk with them.
Os teimlwch y gall fod Duw yn eich galw, gwrandewch ar Dduw a siaradwch ag ef. Siaradwch hefyd â'r rhai sy'n eich adnabod yn dda ac â'ch offeiriad plwyf neu eich caplan. Os teimlwch y gall fod Duw yn galw rhywrai yr ydych yn eu hadnabod, gweddïwch drostynt a siaradwch â hwy.

Further copies from your diocesan office or ring 029 2034 8250. Copïau ychwanegol o swyddfa eich esgobaeth, neu ffôniwch 029 2034 8250.

For more information contact:
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Church in Wales / Yr Eglwys yng Nghymru 2005